



Casgliad Data Cenedlaethol a threfniadau adrodd: Casgliad data 2021/2022

Casgliad data asesu ar gyfer Aseidiadau Sylfaenol a Chyfnod Allweddol 3

Nodiadau cwblhau technegol

Dyddiad cyhoeddi: 4 Mai 2022
Fersiwn: 1.0

Casglu Data Cenedlaethol a threfniadau adrodd 2021/2022

| | |
|---------------------------|--|
| Cynulleidfa | Penaethiaid, athrawon a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, awdurdodau lleol (ALLau) a chyrrff cenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg. |
| Trosolwg | Mae'r ddogfen hon yn egluro'r trefniadau casglu data ac adrodd ar gyfer blwyddyn ysgol 2021/22. |
| Camau i'w cymryd | Rhaid i benaethiaid, athrawon a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac ALLau sicrhau y caiff y gofynion yn y ddogfen hon eu gweithredu erbyn y dyddiadau a nodir. |
| Rhagor o wybodaeth | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion Y Gyfarwyddiaeth Safonau a Gweithlu Ysgolion Y Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 0300 062 5014 e-bost: NDCmailbox@llyw.cymru |



@LIC_Addysg



@AddysgCymru

Copiau ychwanegol Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/casglu-data-cenedlaethol-ysgolion

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL

ISBN digidol 978-1-80364-127-0
© Hawlfraint y Goron Mai 2022
WG43230

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Cyflwyniad | 3 |
| Dyddiadau allweddol | 4 |
| Byrfoddau | 5 |
| Trosolwg | 6 |
| Newidiadau allweddol ar gyfer 2022 | 7 |
| Casglu Data Cenedlaethol ar gyfer Aseidiadau Sylfaenol a Chyfnod Allweddol 3 | 8 |
| 1. Nodi'r disgyblion y mae'n rhaid cyflwyno data CDC ar eu cyfer | 8 |
| 2. Ysgolion y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno data CDC | 8 |
| 3. Grŵp blwyddyn cymwys | 8 |
| 4. Dyddiad cofrestru penodedig | 9 |
| 5. Rhai sy'n gadael yr ysgol | 9 |
| 6. Rhai sy'n ymuno â'r ysgol | 10 |
| 7. Disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol | 10 |
| 8. Ysgolion heb unrhyw ddisgyblion cymwys | 11 |
| 9. Ysgolion lle mae'r holl ddisgyblion wedi'u datgymhwyso | 11 |
| 10. Codau dilys deilliannau aseidiadau athrawon | 11 |
| 11. Cofnodi aseidiadau Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg ac adrodd arnynt | 13 |
| 12. Defnyddio cod 'N': Ni ddyfarnwyd lefel am resymau ar wahân i ddatgymhwyso | 14 |
| 13. Defnyddio cod 'D': Wedi'i ddatgymhwyso o dan adrannau 113–116 o Ddeddf Addysg 2002 | 15 |
| 14. Defnyddio codau 'N' a 'D' mewn ffordd amhriodol | 16 |
| 15. Enghreifftiau pan allai cod 'N' fod yn briodol | 16 |
| 16. NEWBES: Disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr | 17 |
| 17. Y data sy'n ofynnol | 19 |
| 18. Dilysu gan ysgolion | 21 |
| 19. Adroddiadau i rieni | 21 |
| 20. Pwerau penaethiaid | 21 |
| 21. Adroddiadau i rieni yn ystod Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol (BCC) R, 1, 2, 3, 4, 5 a 6 | 22 |
| 22. Gofynion adrodd ychwanegol ar ddiwedd BCC 2 a BCC 6 | 23 |
| 23. Adroddiadau i rieni yn ystod BCC 7, 8 a 9 | 23 |
| 24. Gofynion adrodd ychwanegol ar ddiwedd BCC 9 | 24 |
| 25. Gwybodaeth gymharol yr ysgol a gwybodaeth gymharol genedlaethol | 24 |
| 26. Y System Drosglwyddo Gyffredin | 25 |
| Atodiad A: Adroddiad yr Aseiad Sylfaenol | 27 |
| Atodiad B: Adroddiad Dilysu Ysgolion | 28 |
| Atodiad C: Cyfrifo lefelau pwnc aseiad athrawon – Cyfnod Allweddol 3 | 29 |
| Atodiad D: Proffil y Cyfnod Sylfaen – Sgorio ar gyfer 'Datgymhwyswyd' a 'Heb ei ddyfarnu' | 32 |

Cyflwyniad

Casglu Data Cenedlaethol yw'r broses flynyddol o gasglu data asesu statudol athrawon am ddisgyblion. O ganlyniad i newidiadau rheoliadol a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2018, ni chaiff data o'r casgliad hwn eu cyhoeddi mwyach ar lefel ysgolion nac awdurdodau lleol. Cânt eu cyhoeddi fodd bynnag ar lefel genedlaethol, a byddant felly ar gael i awdurdodau lleol ac ysgolion barhau i ddefnyddio data ar lefel genedlaethol wrth hunanwerthuso, cynllunio'n strategol a phennu targedau. Caiff y data o'r casgliad hwn eu defnyddio gan Lywodraeth Leol ar gyfer gwaith ymchwil, datblygu polisiau a gwerthuso. Er enghraifft, cânt eu defnyddio i ddeall sut mae polisiau arbennig yn effeithio ar ddeilliannau dysgwyr ac i dracio tueddiadau o ran perfformiad cenedlaethol a'r gwahaniaethau ymysg grwpiau o ddysgwyr, megis y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rheiny sy'n derbyn darpariaeth anghenion addysgol arbennig (AAA).

Caiff data cenedlaethol yr Aseiad Sylfaenol (AS) a Chyfnod Allweddol 3 (CA3) eleni eu cyhoeddi cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd nesaf. Gallwch weld y cyhoeddiadau ystadegol diweddaraf ar ddata aseidiadau athrawon yma:

Aseiad athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o bynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 3:

<https://llyw.cymru/cyflawniad-academaidd-disgyblion-4-i-14-oed-mewn-pynciau-craidd>

Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen ac aseidiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3:

<https://llyw.cymru/aseidiadau-athrawon-y-cwricwlwm-cenedlaethol-or-pynciau-di-graidd>

Aseidiadau athrawon y cwricwlwm cenedlaethol mewn pynciau nad ydynt yn bynciau craidd:

<https://llyw.cymru/aseidiadau-athrawon-y-cwricwlwm-cenedlaethol-or-pynciau-di-graidd-2018>

Bydd adroddiadau ar gael drwy DEWi cyn gynted ag y caiff ffurflen ddata ei lanlwytho i helpu gyda'r broses ddilysu. Mae'r adroddiadau canlynol ar gael:

- **Yr AS** - bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r data asesu sylfaenol a lanlwythwyd. Ceir enghraifft o'r adroddiad hwn yn Atodiad A.
- **Diwedd y CA3 - Adroddiadau Dilysu Ysgolion** - bydd y rhain yn cynnwys crynodeb o'r data perthnasol a lanlwythwyd. Darperir enghraifft o adroddiad CA3 yn Atodiad B.

Dyddiadau allweddol

| Dyddiadau Allweddol ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/2020 | |
|---|--|
| Mai 2022 | Ysgolion i gael canllawiau ar Gasglu Data Cenedlaethol ac ar drefniadau adrodd gan Lywodraeth Cymru. |
| 10 Mai 2022 | Dyddiad cofrestru. |
| Erbyn 10 Mehefin 2022 | Lanlwytho'r holl asesiadau athrawon i DEWi er mwyn i Lywodraeth Cymru fedru eu lawrlwytho (cofiwch y gallai awdurdod lleol bennu dyddiad cynharach er mwyn hwyluso'r broses o ddilysu'n lleol). Bydd Adroddiadau Dilysu Ysgolion ar gyfer diwedd y Cyfnod Allweddol 3 ar gael i'w lawrlwytho cyn gynted ag y caiff yr asesiadau athrawon eu cyflwyno i DEWi. Bydd adroddiad cryno o ddata Asesu Sylfaenol hefyd ar gael i'w lawrlwytho o DEWi ar ôl ei cyflwyno. |
| Erbyn 1 Gorffennaf 2022 | Y dyddiad cau terfynol ar gyfer cyflwyno ffeiliau asesiadau athrawon a ddiwygiwyd ar ôl iddynt gael eu dilysu (cofiwch y gallai awdurdod lleol bennu dyddiad cau cynharach). |
| Erbyn diwedd tymor yr haf 2022 | Ysgolion yn darparu adroddiadau i rieni. |
| Erbyn diwedd Awst 2022 | Cyhoeddi canlyniadau cenedlaethol. |

1. Dylai ysgolion lanlwytho eu ffeiliau gorffenedig a'u dilysu cyn gynted ag y byddant yn barod yn hytrach nag aros am y dyddiad terfynol i'w cyflwyno. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol ac Llywodraeth Cymru i brosesu ffeiliau a datrys problemau cyn gynted â phosibl.
2. Os caiff ysgol anhawster i ddefnyddio DEWi (h.y. anghofio enw defnyddiwr/cyfrinair) dylent godi'r mater â'u hawdurdod lleol.
3. **Dylech nodi'r dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno'r ffeil i Lywodraeth Cymru. Ni ellir diwygio data ar ôl y dyddiad hwnnw.**

Byrfoddau

Defnyddir y byrfoddau canlynol drwy'r ddogfen i gyd:

| | |
|--------|---------------------------------------|
| AS | Asesu/Asesiad Sylfaenol |
| MD | Maes/Meysydd Dysgu |
| TC | Targed Cyrhaeddiad |
| DPC | Dangosydd Pynciau Craidd |
| SDG | Y System Drosglwyddo Gyffredin |
| CS | Y Cyfnod Sylfaen |
| DaCS | Dangosydd y Cyfnod Sylfaen |
| DeCS | Deilliant Diwedd y Cyfnod Sylfaen |
| PCS | Proffil y Cyfnod Sylfaen |
| CA | Cyfnod Allweddol |
| SGR | System Gwybodaeth Reoli |
| FYL | Fy Ysgol Leol |
| LCC | Lefel Cwricwlwm Cenedlaethol |
| DCC | Deilliant Cwricwlwm Cenedlaethol |
| BCC | Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol |
| NSACLI | Newydd i System Addysg Cymru a Lloegr |
| UCD | Uned Cyfeirio Disgyblion |
| AA | Asesiad athro |
| CAI | Cymraeg Ail Iaith |
| CDC | Casglu Data Cenedlaethol |

Ysgrifennir pob byrfodd yn llawn pan fydd yn ymddangos am y tro cyntaf yn y ddogfen gyda'r byrfodd mewn cromfachau.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn disodli pob canllaw blaenorol ar Gasglu Data Cenedlaethol ac ar drefniadau adrodd. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar Aseidiadau Sylfaenol (ASau) Cyfnod Allweddol 3 (CA3) a gyflwynir drwy'r CDC. Rhoddir gwybodaeth fanwl i ysgolion yn y *Trefniadau asesu statudol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3*: <https://learning.gov.wales/resources/browse-all/statutory-assessment-arrangements-for-end-of-foundation-phase-key-stage-2-and-3/?skip=1&lang=cy>

Dyma'r pwyntiau allweddol o ran y prosesau gweinyddol a CDC sy'n gysylltiedig ag aseidiadau'r CS a'r Cwricwlwm Cenedlaethol eleni:

- Dylid trosglwyddo pob ffeil drwy wefan DEWi;
- Dylai ysgolion gyflwyno **deilliant Aseiad Sylfaenol (AS)** ar gyfer y **pedwar** Maes Dysgu (MD) gorfodol:
 - Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
 - Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn Gymraeg (LCW) **neu** Saesneg (LCE)
 - Datblygiad Mathemategol (MDT)
 - Datblygiad Corfforol (PDT);
- Dylai ysgolion gyflwyno lefelau targedau cyrhaeddiad yn ogystal â lefelau aseidiadau athrawon pwnc ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg yn CA3;
- Dylai ysgolion gyflwyno lefelau aseidiadau athrawon pwnc yn unig ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth yn CA3;
- Dylai ysgolion gyflwyno data craidd a data nad yw'n ddata craidd yn CA3 ar lefel disgyblion;
- Dylid cymryd pwyll cyn defnyddio codau D ac N. Ymchwilir i orddefnydd o godau D ac N i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir.

Mae'r nodiadau hyn yn rhoi cyngor ac arweiniad ar:

- Yr holl eitemau data ar lefel disgyblion sy'n rhan o gyfres ffeiliau CDC;
- Y trefniadau ar gyfer adrodd ar ganlyniadau disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru a Lloegr;
- Y trefniadau lle nad oes gan ysgolion unrhyw ddisgyblion cymwys i'w hasesu neu lle mae'r holl ddisgyblion wedi'u datgymhwyso o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Newidiadau allweddol ar gyfer 2022

Newidiadau i'r elfennau a gasglwyd fel rhan o'r CDC

Yn 2022, yn dilyn yr ymgynghoriad ar y [Newidiadau i drefniadau asesu ysgolion cyfredol a phrosbectws awdurdodau lleol](#) a gynhaliwyd yn ystod gwanwyn 2022, a'r Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 4 Mai 2022, dim ond yr elfennau AS a CA3 y bydd y CDC yn eu cynnwys.

Fodd bynnag, ar gyfer ysgolion arbennig, dim ond yr elfen BA ddylai gael ei dychwelyd.

Ni fydd yr elfennau y CS (Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen) a CA2 (Cyfnod Allweddol 2) yn rhan o CDC 2022.

Casglu Data Cenedlaethol ar gyfer Aseidiadau Sylfaenol a Chyfnod Allweddol 3

1. Nodi'r disgyblion y mae'n rhaid cyflwyno data CDC ar eu cyfer

Mae angen sicrhau bod pob disgybl cymwys yn cael ei asesu yn erbyn y cwricwlwm neu'r asesiad perthnasol a bod y data'n cael eu cofnodi, eu hadrodd a'u casglu.

Mae'n ofynnol i ysgolion adrodd am hunaniaeth disgyblion drwy ddefnyddio:

- dangosydd grŵp Blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (BCC) o'r cofnod Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) (mae'r rhain yn cael eu defnyddio i nodi disgyblion sy'n gymwys am aseidiadau athro (AA) ar gyfer diwedd CA3);
- Dyddiad Geni (mae hwn yn cael ei gasglu i nodi plant sy'n gymwys am AS, hynny yw'r plant sy'n cael eu pen-blwydd yn 5 yn ystod y flwyddyn academaidd); a
- nifer y disgyblion ar y gofrestr ar y dyddiad penodedig.

2. Ysgolion y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno data CDC

Rhaid i bob ysgol a gynhelir sydd â disgyblion cymwys ar ei chofrestr ar y dyddiad penodedig wneud datganiad CDC.

3. Grŵp blwyddyn cymwys

AS:

Mae'n rhaid i bob plentyn sydd yn ei Flwyddyn Dosbarth Derbyn gael Aseidiad Sylfaenol ym mhedwar Maes Dysgu statudol yr AS, yn ystod ei chwe wythnos gyntaf yn yr ysgol. At ddiben yr AS, y diffiniad o Flwyddyn Dosbarth Derbyn yw'r flwyddyn academaidd y mae disgybl yn dathlu ei ben-blwydd yn 5 oed. Mae hyn yn wahanol i BCC R a ddiffinnir fel y grŵp blwyddyn lle caiff y disgybl ei addysgu am y mwyafrif o'i amser, ni waeth beth yw ei oedran cronolegol.

Ar gyfer AS, dyddiad geni'r disgybl sy'n pennu a yw'n gymwys i gael ei asesu. Bydd eich System Gwybodaeth Reoli (SGR) felly yn cynnwys disgyblion yn y ffeil AS os y gwnaethant ddathlu eu pen-blwydd yn 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, hynny yw dyddiadau geni rhwng 1/09/2013 a 31/08/2014.

Mae dogfennau LIC ar Broffil y Cyfnod Sylfaen ac AS ar gael ar ei gwefan:

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/cyfnod-sylfaen/proffil-y-cyfnod-sylfaen-canllawiau-i-ymarferwyr/>

CA3:

Rhaid i bob disgybl sydd ym mlwyddyn olaf y CS, hynny yw BCC 2, gael ei asesu yn erbyn Deilliannau perthnasol y Cyfnod Sylfaen ar gyfer pob MD perthnasol.

Rhaid i bob disgybl ym mlwyddyn olaf CA3, hynny yw BCC 9 gael Asesiad Athro ym mhob pwn a tharged cyrhaeddiad perthnasol.

Ar gyfer Asesiadau Athrawon diwedd CA3, y grŵp BCC y caiff y disgybl ei *addysgu* ynddo sy'n pennu a yw'n gymwys i gael ei asesu, nid dyddiad geni'r disgybl.

Dylech sicrhau bod yr wybodaeth hon wedi'i chofnodi'n gywir ar SGR yr ysgol. Bydd meddalwedd ysgolion yn cyfeirio'n awtomatig at yr wybodaeth hon wrth allforio data ar gyfer y ffeil CDC. Ni fydd ysgolion yn gallu newid manylion y disgybl a ddewiswyd i'w allforio heb newid cofnod y disgybl.

Nodwch y caiff gwiriadau eu cynnal ar gyfer diwedd y CA3 i gadarnhau bod disgyblion yn cael eu hasesu a'r canlyniadau yn cael eu hadrodd yn ôl eu hiaith statudol (fel y nodir yng nghofnodion disgyblion ac sy'n cael ei ddisgrifio yn CYBLD fel 'Astudio'r Gymraeg' fel dangosydd ysgol). Tynnir sylw at unrhyw anghysondebau a byddant yn cael eu cyfeirio at yr awdurdodau lleol er mwyn iddynt fedru ymchwilio iddynt.

4. Dyddiad cofrestru penodedig

Rhaid i ysgolion gyflwyno canlyniad AA ar gyfer pob disgybl cymwys sydd ar y gofrestr ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai ym mlwyddyn academiaidd yr adrodd. **10 Mai yw'r dyddiad penodedig yn 2022.**

Nodwyd bod yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai yn briodol oherwydd:

- Ni fydd y dyddiad hwn byth yn ystod gwyliau hanner tymor, ac anaml iawn y bydd yn disgyn ar ddiwrnod yn syth ar ôl gŵyl y banc neu wyliau hanner tymor – felly'n mae'n debygol iawn o fod yn ddiwrnod ysgol arferol.
- Dylai ysgolion dderbyn ffeil drosglwyddo gyffredin a chofnodion addysgol cyn pen 15 diwrnod ysgol ar ôl i'r disgybl gael ei roi ar y gofrestr – felly, lle y bo'n briodol, bydd ganddynt ddeilliannau AS a gwybodaeth am berfformiad addysgol blaenorol y disgybl er mwyn helpu gyda'i AA.
- Pan fo disgybl yn BCC 9 yn dod i'ch ysgol ychydig cyn, neu ar ddiwrnod y cyfrifiad, bydd gan yr ysgol dros chwe wythnos o gyswllt â'r disgybl i helpu i lywio eu gwaith asesu ar gyfer diwedd y cyfnod, cyn y dyddiad cau terfynol ar gyfer cyflwyno'r asesiadau.

Bydd meddalwedd ysgolion yn nodi'n awtomatig pa ddisgyblion cymwys sydd ar y gofrestr ar y dyddiad penodedig; ni fydd yr ysgol yn gallu newid y dewis hwn ar gyfer proses allforio ffeiliau CDC, felly mae'n bwysig bod y dyddiad derbyn i'r ysgol wedi'i gofnodi'n gywir ar System Gwybodaeth Reoli'r ysgol.

5. Rhai sy'n gadael yr ysgol

- Lle bo disgybl yn gadael yr ysgol cyn yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai (10 Mai 2022), NID oes yn rhaid i'r ysgol gyflwyno eu canlyniadau AA i Lywodraeth Cymru nac i'r

rhieni. Dylai ysgolion sicrhau eu bod wedi cydymffurfio'n llawn â'r gofynion o ran trosglwyddo data i ysgol newydd y disgybl, a thrwy gytundeb ag ysgol newydd y disgybl, bod trefniadau ar waith i roi manylion y deilliannau i'r rhieni, fel bo'n briodol.

- Asesiad Sylfaenol: Un AS yn unig sydd ar gyfer pob disgybl. Os yw disgybl yn symud i ysgol newydd ar ôl i'r AS gael ei gynnal, mae'n rhaid darparu deilliannau'r AS hwnnw i'r ysgol newydd ar gyfer eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy'r CDC. Mae'n bosibl y bydd ysgolion yn dewis asesu plant gan ddefnyddio'r PCS pan fyddant yn ymuno â'r ysgol newydd at eu dibenion eu hunain, ond ni fydd yr asesiad hwn yn AS statudol ac ni ddylid adrodd wrth Llywodraeth Cymru amdano.
- Lle bo disgybl yn gadael yr ysgol ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai (10 Mai 2022) neu ar ôl hynny, yr ysgol sy'n gyfrifol o hyd am gyflwyno canlyniadau AA y disgybl i Lywodraeth Cymru. Dylai ysgolion sicrhau eu bod wedi cydymffurfio'n llawn â'r gofynion o ran trosglwyddo data i ysgol newydd y disgybl, a thrwy gytundeb ag ysgol newydd y disgybl, bod trefniadau ar waith i roi manylion y deilliannau i'r rhieni.

6. Rhai sy'n ymuno â'r ysgol

- Lle bo disgybl yn ymuno â'r ysgol ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai (10 Mai 2022) neu cyn hynny, rhaid i'r ysgol newydd dderbyn cyfrifoldeb am gyflwyno canlyniadau AA y disgybl i Lywodraeth Cymru ac i'r rhieni.
- Asesiad Sylfaenol: Un AS yn unig sydd ar gyfer pob disgybl. Os yw disgybl wedi dechrau ei Flwyddyn Dderbyn mewn ysgol arall, mae'n rhaid i'r ysgol newydd adrodd y deilliannau a gofnodwyd gan yr ysgol flaenorol ar gyfer yr AS wrth Lywodraeth Cymru drwy'r CDC. Mae'n bosibl y bydd ysgolion yn dewis asesu plant gan ddefnyddio'r PCS pan fyddant yn ymuno â'r ysgol newydd at eu dibenion eu hunain, ond ni fydd yr asesiad hwn yn AS statudol ac ni ddylid adrodd wrth Llywodraeth Cymru amdano.
- Lle bo disgybl yn ymuno â'r ysgol ar ôl yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai (10 Mai 2022), yr ysgol flaenorol sy'n gyfrifol am gyflwyno canlyniadau AA i Lywodraeth Cymru. Ni ddylai ysgol newydd y disgybl gyflwyno data i Llywodraeth Cymru. Dylai ysgolion sicrhau eu bod wedi cydymffurfio'n llawn â'r gofynion o ran trosglwyddo data o ysgol flaenorol y disgybl, a thrwy gytundeb ag ysgol flaenorol y disgybl, bod trefniadau ar waith i roi manylion y deilliannau i'r rhieni.

7. Disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol

Rhaid i ddisgyblion cymwys sydd wedi'u cofrestru mewn dau le gael eu hasesu ar ddechrau eu Blwyddyn Dderbyn neu ar ddiwedd CA3, yn ôl y gofyn, a rhaid cyflwyno'u canlyniadau fel rhan o'r broses CDC. Rhaid cynnwys hefyd ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru'n rhannol mewn uned cyfeirio disgyblion neu ysgol arbennig (ac eithrio CA3 ar gyfer ysgolion arbennig).

- Lle bo disgybl wedi'i gofrestru mewn dau leoliad, cyfrifoldeb y lleoliad lle caiff y disgybl ei addysgu fynychaf yw cyflwyno eu deilliannau AA statudol. O 2014 ymlaen, caiff disgyblion sydd 'Wedi'u cofrestru mewn dau le-Prif' mewn uned cyfeirio disgyblion

gyflwyno eu data CDC drwy gyfrwng eu system gwybodaeth reoli neu daenlen wrth gefn.

- Yn y sefyllfa hon, dylai ysgolion gyfathrebu â'i gilydd a dylid cadw cofnodion asesiadau yn y naill leoliad a'r llall.
- Bydd systemau gwybodaeth reoli ysgolion yn defnyddio statws cofrestru disgyblion i ganfod disgyblion priodol. Rhaid cynnwys disgyblion â statws cofrestru 'Presennol' neu 'Wedi'u cofrestru mewn dau le-Prif' yn y datganiad CDC.

8. Ysgolion heb unrhyw ddisgyblion cymwys

Mae disgwyl i bob ysgol sydd â disgyblion cymwys ddychwelyd canlyniadau AS a/neu CA3.

Os nad oes gan sefydliad unrhyw ddisgyblion sy'n gymwys i gael asesiad AS neu CA3, hynny yw, dim disgyblion ar y gofrestr sy'n cael eu pen-blwydd yn 5 yn ystod y flwyddyn academaidd nac yn BCC 9 ar 10 Mai 2022, dylai'r pennaeth anfon neges e-bost yn cadarnhau hynny i NDCmailbox@llyw.cymru.

9. Ysgolion lle mae'r holl ddisgyblion wedi'u datgymhwyso

Os yw'r holl ddisgyblion cymwys mewn sefydliad wedi'u datgymhwyso, dylid cofnodi'r data hyn yn unol â'r amgylchiadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon a dylid dychwelyd yr holl ffeiliau CDC i'r awdurdod lleol fel rhan o'r broses CDC.

10. Codau dilys deilliannau asesiadau athrawon

Mae disgyblion yn cael eu hasesu yn erbyn y MD yn yr AS. Mae disgyblion yn cael eu hasesu yn erbyn Lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (LCC) ar ddiwedd CA3.

Asesiad Sylfaenol

Mae'r tabl canlynol yn dangos y codau deilliant dilys ar gyfer 2021/22.

| Deilliant yr Asesiad Sylfaenol | Byrfodd | Cod Deilliant |
|---|----------------|----------------------|
| Perfformiad yn uwch na Deilliant 6 y Cyfnod Sylfaen | ASA | A |
| Deilliant 6 y Cyfnod Sylfaen | AS6 | 6 |
| Deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen | AS5 | 5 |
| Deilliant 4 y Cyfnod Sylfaen | AS4 | 4 |
| Deilliant 3 y Cyfnod Sylfaen | AS3 | 3 |
| Deilliant 2 y Cyfnod Sylfaen | AS2 | 2 |
| Deilliant 1 y Cyfnod Sylfaen | AS1 | 1 |
| Deilliant Aur y Cyfnod Sylfaen | ASAu | G |
| Deilliant Arian y Cyfnod Sylfaen | ASAr | S |
| Deilliant Efydd y Cyfnod Sylfaen | ASEf | Z |
| Gweithio tuag at Ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen | ASW | W |
| Ni ddyfarnwyd deilliant am resymau ar wahân i ddatgymhwyso | ASN | N |
| Wedi'i ddatgymhwyso o dan adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002 | ASD | D |

Cyfnod Allweddol 3

Mae'r tabl canlynol yn dangos y codau deiliant dilys ar gyfer 2021/22.

| Graddfa'r Cwricwlwm Cenedlaethol | Byrfodd | Cod Deiliant |
|---|----------------|---------------------|
| Perfformiad Eithriadol | PE | E |
| Lefel 8 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC8 | 8 |
| Lefel 7 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC7 | 7 |
| Lefel 6 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC6 | 6 |
| Lefel 5 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC5 | 5 |
| Lefel 4 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC4 | 4 |
| Lefel 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC3 | 3 |
| Lefel 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC2 | 2 |
| Lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC1 | 1 |
| Deiliant 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol | DCC3 | A |
| Deiliant 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol | DCC2 | B |
| Deiliant 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol | DCC1 | C |
| Ni ddyfarnwyd lefel am resymau ar wahân i ddatgymhwyso | N | N |
| Wedi'i ddatgymhwyso o dan adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002 | D | D |

Gweler Atodiad C a D am enghreifftiau o'r cyfrifiadau mewn perthynas â lefel pwnc gan ddefnyddio lefelau Deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

11. Cofnodi asesiadau Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg ac adrodd arnynt

Mae'n bwysig bod y cynnydd y mae disgybl yn ei wneud yn y Gymraeg iaith Gyntaf neu yn Saesneg yn cael ei asesu a'i gofnodi'n gywir yn unol â'i iaith statudol.

Iaith statudol disgyblion at ddibenion asesu yw'r iaith y cânt eu haddysgu drwyddi. Bydd System Gwybodaeth Reoli'r ysgol yn defnyddio'r iaith yr addysgwyd y disgybl ynnddi fel y nodwyd yng nghofnodion y disgyblion, Diffinnir hyn at ddibenion CYBLD fel y dangosydd 'Astudio'r Gymraeg' ar gyfer dethol Asesiadau Athrawon diwedd CA3 i'r CDC. Mae'n

bosibl bod gan Systemau Gwybodaeth Reoli ysgolion ddull arall o ddethol deilliannau AS ar gyfer CDC. Dylai ysgolion sicrhau, fel gydag asesiadau statudol eraill, bod y MD ieithyddol cywir wedi'i asesu a'i gofnodi ar y System Gwybodaeth Reoli ar gyfer yr AS. .

Nodwch y caiff asesiadau diwedd y CA3 eu harchwilio i gadarnhau bod disgyblion yn cael eu hasesu a'r canlyniadau yn cael eu hadrodd yn ôl eu hiaith statudol . Tynnir sylw at unrhyw anghysondebau a byddant yn cael eu cyfeirio at yr awdurdodau lleol er mwyn iddynt fedru ymchwilio iddynt.

Asesiad Sylfaenol

Mae'n ofynnol i ysgolion asesu disgyblion **naill ai** yn LCW (Cymraeg) **neu** LCE (Saesneg) yn unol â'r iaith yr addysgir y disgyblion drwyddi (eu hiaith statudol). Caiff ysgolion ddewis asesu disgyblion yn y ddwy iaith lle y bo hynny'n briodol, fel y gwelant orau; fodd bynnag, dim ond y MD yn yr iaith statudol fydd yn rhan o'r AS statudol a dim ond ar hwn y dylid adrodd yn y CDC i Lywodraeth Cymru. Ni fydd asesiad MD yr iaith anstatudol ar Broffil y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gynnwys yn yr AS statudol ac ni ddylid adrodd arno wrth Llywodraeth Cymru fel rhan o'r CDC.

Cyfnod Allweddol 3

Mae'n ofynnol i ysgolion asesu eu holl ddisgyblion ar ddiwedd CA3 mewn Saesneg.

Os caiff disgyblion eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mae'n ofynnol i ysgolion hefyd asesu disgyblion o'r fath o ran y Gymraeg iaith gyntaf.

Os oes canlyniadau ar gael ar gyfer Cymraeg iaith Gyntaf a Saesneg, yr uchaf o'r ddau a ddefnyddir i gyfrifo'r Dangosydd Pynciau Craidd (CSI). Fe'i cyfrifir yn awtomatig gan feddalwedd System Gwybodaeth Reoli'r ysgol. Noder na chaiff canlyniadau'r disgyblion mewn Cymraeg Ail Iaith eu defnyddio wrth gyfrifo'r Dangosydd Pynciau Craidd.

Noder os nad oes angen asesu gallu iaith disgybl ar gyfer y Gymraeg na'r Saesneg, dylid gadael eu cofnod ar gyfer y pwnc hwn yn wag - PEIDIWCH â defnyddio cod 'D' na chod 'N' o dan yr amgylchiadau hyn.

12. Defnyddio cod 'N': Ni ddyfarnwyd lefel am resymau ar wahân i ddatgymhwyso

Mae'r cod hwn yn ddilys ar gyfer canlyniadau AS a CA3.

Mae Asesiadau Sylfaenol yn cynnwys asesiadau yn erbyn pedwar ffrâm sgiliau ar gyfer pob MD ar Broffil Cryno y PCS. Os caiff mwyl nag un ffrâm sgiliau ar gyfer MD ei asesu'n god 'N' a / neu 'D' yna mae'n rhaid i ganlyniad cyffredinol y MD hwnnw fod yn 'N' neu 'D' fel y bo'n briodol. Ceir canllawiau penodol ynglŷn â'r rheolau hyn yn Atodiad E ac ar dudalennau gwe PCS Llywodraeth Cymru:

<https://beta.llyw.cymru/proffil-y-cyfnod-sylfaen-canllawiau-i-ymarferwyr>

Yn gyffredinol, NI ddylid defnyddio Cod N oherwydd dylai'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion gael deilliant / lefel AA..

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio cod N, megis pan nad oes gan yr athro ddigon o wybodaeth a thystiolaeth i wneudasesiad.

Yn gyffredinol, hyd yn oed yn achos disgybl sydd â hanes o bresenoldeb gwael, byddem yn disgwyl i asesiad gael ei wneud ar sail tystiolaeth a gwybodaeth a gasglwyd pan oedd y disgybl yn bresennol.

Hyd yn oed os yw disgybl yn cyrraedd ysgol ar, neu'n fuan cyn, y dyddiad cofrestru, dylid adrodd ar AS i Lywodraeth Cymru yn yr CDC. Y rheswm dros hyn yw y bydd gan yr ysgol dros chwe wythnos o gyswllt â'r disgybl er mwyn cynnal AS cyn y dyddiad cau terfynol ar gyfer cyflwyno'r asesiad. Ni fyddai'n briodol defnyddio cod N yn y sefyllfa hon, os nad oes amgylchiadau eithriadol eraill sy'n rhwystro athro rhag cael y dystiolaeth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt ar gyfer yr AS.

Bydd cod N yn rhan o'r data cenedlaethol a gyhoeddir ar gyfer diwedd CA3; o'r herwydd, dylid ei ddefnyddio â phwyll a dim ond mewn achosion eithriadol.

Os yw ysgol yn cofnodi nifer sylweddol o godau 'N', bydd gwiriadau dilysu fel rhan o feddalwedd yr ysgol ac wrth lanlwytho i system DEWi yn cael eu cynnal i sicrhau dilysrwydd y ffeil. Os defnyddir gormod ar god N, ymchwilir i'r mater er mwyn sicrhau bod y cod yn cael ei ddefnyddio'n gywir.

Dylai ysgolion wneud ymholiadau ynghylch unrhyw gofnodion disgyblion lle cofnodir cod N ar gyfer rhan(nau) o'r cwricwlwm lle mae deilliannau dilys wedi'u cofnodi ar gyfer MD, targedau cyrhaeddiad neu bynciau eraill. Ni fyddem, fel arfer, yn disgwyl i'r sefyllfa hon godi. Gofynnir i awdurdodau lleol fonitro'r defnydd o god N gan ysgolion a gynhelir ganddynt fel y bo modd datrys ymholiadau am y mater hwn yn gynnar yn y broses CDC.

Caiff disgyblion sy'n cael y cod hwn eu cynnwys yng nghrynodeb data ysgolion yn eu Hadroddiadau Dilysu a chânt eu cynnwys yn y canlyniadau Gwerth Ychwanegol a chenedlaethol a gyhoeddir ar gyfer diwedd CA3.

13. Defnyddio cod 'D': Wedi'i ddatgymhwyso o dan adrannau 113–116 o Ddeddf Addysg 2002

Mae'r cod hwn yn ddilys ar gyfer canlyniadau AS a CA3.

Mae Asesiadau Sylfaenol yn cynnwys asesiadau yn erbyn pedwar o ffrâm sgiliau ar gyfer pob MD ar Broffil Cryno y PCS. Os caiff mwyn nag un ffrâm sgiliau ar gyfer MD ei asesu'n god 'N' a / neu 'D' yna mae'n rhaid i ganlyniad cyffredinol y MD hwnnw fod yn 'N' neu 'D' fel bo'n briodol. Ceir canllawiau penodol ynglŷn â'r rheolau hyn mewn atodiad o'r ddogfen hon ac ar dudalennau gwe PCS Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/proffil-y-cyfnod-sylfaen-canllawiau-i-ymarferwyr>

O ran Asesiadau Athrawon AS a CA3, yr unig adeg y dylid defnyddio cod 'D' yw pan fo disgybl wedi'i ddatgymhwyso o'r cyfan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu ran ohono, o dan amgylchiadau penodol a nodir yn adrannau 364-367 o Ddeddf Addysg 1996, a weithredir bellach drwy adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002.

Dim ond o dan yr amgylchiadau penodol hyn y mae datgymhwyso'n ddilys, ac **NI** ddylid ei ddefnyddio o dan unrhyw amgylchiadau eraill.

Caiff disgyblion sy'n cael y cod hwn eu cynnwys yng nghrynodeb data ysgolion yn eu Hadroddiadau Dilysu a chânt eu cynnwys yn y canlyniadau Gwerth Ychwanegol a chenedlaethol a gyhoeddir ar gyfer diwedd CA3.

14. Defnyddio codau 'N' a 'D' mewn ffordd amhriodol

Nid yw'n briodol defnyddio codau N a D o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Pan fo disgybl wedi dechrau ei Flwyddyn Dosbarth Derbyn, neu wedi cyrraedd yr ysgol ychydig cyn, neu ar ddiwrnod y cyfrifiad (sef yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai). Y rheswm dros hyn yw y bydd gan yr ysgol dros chwe wythnos o gyswllt â'r disgybl er mwyn cynnal AS neu i lywio ei asesiad ar diwedd cyfnod.
- Pan nad yw unrhyw un o'r asesiadau ieithyddol canlynol wedi'u cynnal oherwydd nad oes gofyniad statudol i asesu:

| | Cymraeg iaith gyntaf MD / pwnc | Saesneg MD / pwnc | Cymraeg ail iaith MD / pwnc |
|-----|-----------------------------------|---|--------------------------------|
| CA3 | CYM | Dylai pob disgybl gael ei asesu mewn ENG waeth beth yw eu hiaith statudol | WEL |

Yn y sefyllfa hon, dylid gadael y cofnod ar gyfer y MD/pwnc yn wag. Gweler adran 11 i gael rhagor o wybodaeth am iaith statudol ac asesiadau statudol ac anstatudol, ac adran 17 i gael rhagor o wybodaeth am ba bynciau ieithyddol sy'n orfodol neu'n ddewisol eu cyflwyno yn CDC a'u hadrodd i rieni.

- Os yw disgybl wedi'i gofrestru mewn dau le ac os mai chi yw'r ysgol atodol ac os yw prif ysgol y disgybl wedi cofnodi asesiadau diwedd CA3 ar gyfer y disgybl.

15. Enghreifftiau pan allai cod 'N' fod yn briodol

- Lle bo'r disgybl wedi symud o ysgol i ysgol nifer o weithiau a bod yr ysgol sy'n gyfrifol am gynnal ac adrodd ar asesiad diwedd CA3 wedi methu â dod o hyd i ffeil drosglwyddo gyffredin y disgybl a/neu ei gofnodion addysgol a lle nad yw'r ysgol wedi cael digon o gyswllt â'r disgybl er mwyn ffurfio barn ddilys.
- Os nad yw'r disgybl, oherwydd salwch, beichiogrwydd neu sefyllfa anarferol arall, wedi mynychu'r ysgol am gyfnod estynedig o amser ac nad aseswyd unrhyw lefel CC flaenorol. Yn gyffredinol, byddem yn disgwyl dyfarnu lefel heblaw N os bu'r disgybl yn bresennol am dros draean y flwyddyn academaidd bresennol.

Os yw codau N neu D yn cael eu defnyddio mewn ffordd amhriodol ar gyfer diwedd y CA3, yna bydd y canlyniadau Gwerth Ychwanegol a chenedlaethol yn anghywir.

16. NEWBES: Disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr

Rhaid i ddisgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr gael eu hasesu ar ddiwedd CA3. Fodd bynnag, gellir eithrio eu deilliannau asesu wrth gyfrifo ystadegau cyfanredol ar lefel ysgol ac ar lefel awdurdod lleol. **Caiff** eu data eu cynnwys, fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn y canlyniadau cenedlaethol.

Dyma'r meini prawf y dylid eu defnyddio yn achos disgyblion y caniateir peidio â chynnwys eu canlyniadau mewn ystadegau ar lefel ysgol ac ar lefel yr awdurdod lleol:

- nid Cymraeg na Saesneg yw iaith gyntaf y disgybl; **ac**
- mae'r plentyn wedi cyrraedd o system addysg nad yw'n seiliedig ar y Gymraeg na'r Saesneg; **ac**
- ymunodd y disgybl â system addysg y Deyrnas Unedig (DU) ar ddechrau blwyddyn ysgol 2020/2021 neu ar ôl hynny, hynny yw ar 1 Medi 2020 neu ar ôl hynny

Mater i'r pennaeth fydd penderfynu a yw canlyniadau disgybl sy'n bodloni'r meini prawf uchod yn cael eu tynnu o ystadegau cyfanredol yr ysgol a'r awdurdod lleol.

Os gwneir y penderfyniad i dynnu'r canlyniadau oddi yno, bydd y penderfyniad hwnnw'n berthnasol i bob pwnc. Ni fydd modd cynnwys canlyniadau disgyblion ar gyfer un pwnc a'u tynnu oddi yno ar gyfer y lleill.

Rhaid i ganlyniadau ar gyfer y disgyblion hyn gael eu hadrodd i'r rhieni a rhaid eu cynnwys yn ffeil datganiad data'r CDC.

Drwy nodi cofnodion disgybl yn gywir yn System Gwybodaeth Reoli'r ysgol i ddangos bod y disgybl yn bodloni'r meini prawf uchod a thrwy roi dyddiad mynediad dilys, bydd canlyniadau disgyblion o'r fath yn cael eu hepgor wrth gyfrifo ystadegau cyfanredol yr ysgol a'r awdurdod lleol.

Pan fydd disgybl cymwys wedi bod yn yr ysgol am fwy na dwy flynedd, ni fydd ei ganlyniadau'n cael eu hepgor bellach. Fodd bynnag, bydd cofnod y disgybl yn dal i ddangos bod y disgybl wedi dod o system addysg nad yw'n seiliedig ar rai Cymru na Lloegr.

Nid yw canllawiau ar gyfer disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr yn gymwys i ganlyniadau AS.

Ymestyn cyfnod statws disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr

Ym mis Mai 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau pellach mewn perthynas â NEWBES yn y ddogfen 'Adrodd ar Berfformiad Ysgolion – Bwletin 1', am y disgrisiwn

sydd ar gael i awdurdodau lleol ymestyn cyfnod y statws NEWBES mewn sefyllfaoedd penodol lle mae'r disgyblion yn gadael y DU ac yna'n dychwelyd. Mae'r bwletin ar gael yma:

<https://llyw.cymru/adrodd-ar-berfformiad-ysgolion-bwletinau>

Lle penderfynir ymestyn cyfnod statws NEWBES disgybl, bydd angen nodi manylion cywir yn ei gylch ar system gwybodaeth reoli'r ysgol o ran meini prawf NEWBES. Lle mae cofnod gwreiddiol y disgybl yn cael ei ailosod pan mae'n ailddechrau yn yr ysgol, dylai'r ysgol dalu sylw i ddyddiad dechrau'r disgybl. Os nodir bod disgybl wedi dechrau yn yr ysgol cyn 1 Medi 2020 (hy mwy na'r cyfnod dwy flynedd), caiff ei gynnwys yn niferoedd yr ysgol a'r awdurdod lleol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro estyniadau i gyfnod statws NEWBES ac, os bydd patrymau anarferol, bydd yr awdurdod lleol yn ymchwilio.

17. Y data sy'n ofynnol

Asesiad Sylfaenol

| Maes Dysgu | Adroddiad wrth Lywodraeth Cymru | | Adroddiad i Rieni | | |
|--|---------------------------------|---------------------|---------------------|---------------------|----------|
| | Dyddiad cymeradwyo* | Deilliant rhifiadol | Dyddiad cymeradwyo* | Deilliant rhifiadol | Naratif |
| Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (PSD) | G | G | O | O | O |
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Gymraeg (LCW) NEU Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Saesneg (LCE) | | G | | O | O |
| Datblygiad mathemategol (MDT) | | G | | O | O |
| Datblygiad corfforol (PDT) | | G | | O | O |

Gorfodol (G) Opsiynol (O)

*Dylid cwblhau a chymeradwyo'r AS o fewn yr ysgol yn ystod y cyfnod chwe wythnos ar gyfer cynnal asesiad sylfaenol. Rydym yn galw'r dyddiad hwn yn 'ddyddiad cymeradwyo'. Dyma'r dyddiad y cwblheir yr asesiad yn ei gyfanrwydd a bydd yr un dyddiad cymeradwyo yn ymddangos 4 gwaith at ddibenion y CDC: unwaith yn erbyn pob un o'r 4 deilliant MD. Mae'n bosibl mai dim ond unwaith y bydd gofyn i chi gofnodi'r dyddiad yn eich System Gwybodaeth Reoli.

Data anstatudol: Asesiad Sylfaenol

Dewis yr ysgol yw rhoi adroddiad i rieni ar bedwar MD yr AS. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu sylwadau ar ffurf naratif i rieni ynghylch cynnydd eu plentyn yn ystod y flwyddyn ym mhob MD yn y cwrwicwlwm. Byddai'n briodol defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ym Mhroffil y Cyfnod Sylfaen ar gyfer gwneud hyn.

Cyfnod Allweddol 3

| Pwnc | Disgrifiad o'r Eifen | Adroddiad i Lywodraeth Cymru | Adroddiad i Rien |
|------------------|------------------------------------|------------------------------|------------------|
| ENG | Saesneg fel pwnc | G | G |
| ENG | • Llafaredd | G | G |
| ENG | • Darllen | G | G |
| ENG | • Ysgrifennu | G | G |
| ¹ CYM | Cymraeg fel pwnc | G | G |
| CYM | • Llafaredd | G | G |
| CYM | • Darllen | G | G |
| CYM | • Ysgrifennu | G | G |
| MAT | Mathemateg fel pwnc | G | G |
| SCI | Gwyddoniaeth fel pwnc | G | G |
| ART | Celf a Dylunio | G | G |
| DAT | Dylunio a Thechnoleg | G | G |
| GEO | Daearyddiaeth | G | G |
| HIS | Hanes | G | G |
| ICT | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | G | G |
| MUS | Cerddoriaeth | G | G |
| PED | Addysg Gorfforol | G | G |
| ² WEL | Cymraeg Ail Iaith | G | G |
| WEL | • Llafaredd | O | G |
| WEL | • Darllen | O | G |
| WEL | • Ysgrifennu | O | G |
| <i>MFL</i> * | Iaith Dramor Fodern fel pwnc | G | G |
| <i>MFL</i> * | • Llafaredd | O | G |
| <i>MFL</i> * | • Darllen | O | G |
| <i>MFL</i> * | • Ysgrifennu | O | G |

Gorfodol (G) Opsiynol (O)

Bydd y System Gwybodaeth Reoli yn cyfrifo'r CSI yn awtomatig.

*Dim ond un canlyniad iaith Dramor Fodern y dylid ei ddychwelyd ar gyfer pob disgybl. Lle bo disgyblion yn astudio mwy nag un iaith dramor fodern yn CA 3, dylai ysgolion benderfynu pa iaith y dylid ei chofnodi at ddibenion yr asesiad statudol.

¹ Rhaid i ddysgwyr sy'n dilyn cwrs astudio Cymraeg Iaith Gyntaf gael eu hasesu yn Gymraeg. Mae'n ofodol adrodd y canlyniadau hyn yn y CDC.

² Os **nad** yw'r disgybl yn cael ei asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid ei asesu mewn Cymraeg ail iaith. Mae'n ddewisol i adrodd y canlyniadau hyn yn y CDC ond yn orfodol i'w hadradd i rieni.

18. Dilysu gan ysgolion

Mae'r holl ddata am AS a CA3 yn cael eu casglu'n electronig. Mae'r canlyniadau cenedlaethol ar gyfer data diwedd y CA3 yn cael eu cyhoeddi, a chânt eu defnyddio fel sail i waith gwerthuso lleol a gwaith polisi cenedlaethol. Felly, rydym yn parhau i gynnwys proses ddilysu ffurfiol.

Gall ysgolion ddilysu eu data CDC cyn gynted ag y byddant wedi cael eu lanlwytho i DEWi. Bydd Adroddiadau Dilysu Ysgolion ar gyfer Aseidiadau Athrawon diwedd y CA3 ar gael yn syth ar ôl eu lanlwytho er mwyn hwyluso'r broses hon. Ar hyn o bryd, mae'r Adroddiadau Dilysu Ysgolion hyn yn y broses o gael eu datblygu. Rhoddir enghreifftiau yn Atodiad B mewn fersiwn ddiweddarach o'r ddogfen hon. Bydd adroddiad cryno ar DEWi ar ôl cwblhau'r broses lanlwytho er mwyn helpu gyda'r gwaith o ddilysu data AS. Mae enghraifft o'r adroddiad hwn yn Atodiad A.

Bydd y cyfnod dilysu yn **dod i ben ar 1 Gorffennaf 2022**. Mae hyn yn rhoi cyfle i ysgolion wirio'r ffigurau cyfanredol, ac ar ôl iddynt wneud hynny, bernir bod y data'n derfynol. Wedyn bydd data terfynol diwedd y CA3 yn cael eu cyhoeddi ar lefel genedlaethol a'u defnyddio at ddibenion Gwerth Ychwanegol. Os oes unrhyw anghysondeb, dylech nodi y bydd angen i ysgolion gyflwyno ffeiliau diwygiedig ar lefel disgyblion i DEWi.

Noder:

- **Dylai ysgolion ddilysu eu data cyn gynted ag y bydd y datganiad yn gyflawn ac ailgyflwyno ffeiliau os oes angen.**
- **Ni cheir gwneud unrhyw ddiwygiadau i ddata ar ôl i'r cyfnod dilysu ddod i ben.**
- **Os oes mater yn codi gydag ysgolion o ran cael mynediad at DEWi (h.y. anghofio enw defnyddiwr/cyfrinair) dylent gysylltu â'u hawdurdod lleol.**

19. Adroddiadau i rieni

Mae'n ddyletswydd ar y pennaeth i sicrhau yr anfonir adroddiad ysgrifenedig at rieni pob disgybl o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn ysgol i'w cadw ganddynt. Dylai ysgolion drin pob rhiant yn gyfartal oni bai fod gorchymyn llys yn cyfyngu ar hawl yr unigolyn i arfer ei gyfrifoldebau rhianta. Dylai ysgolion wneud pob ymdrech i roi adroddiad i bob un sy'n 'rhiant'³ er efallai nad dyma'r person y mae'r ysgol yn ymwneud ag ef o ddydd i ddydd.

20. Pwerau penaethiaid

Mae gan benaethiaid ryddid i wneud y canlynol:

- cynnwys mewn adroddiad unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â chynnydd y disgybl, y tu hwnt i'r lleiafswm sy'n ofynnol. Mae'n arbennig o bwysig darparu gwybodaeth gyddestunol mewn adroddiadau ynghylch disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn aml bydd yn briodol ychwanegu at y lleiafswm sylfaenol o wybodaeth trwy roi

³ Mae rhagor o wybodaeth yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 12/2007 "Rhieni a Chyfrifoldeb Rhiant".

adroddiad mwy manwl ynglŷn â chynnydd y disgybl mewn perthynas â'r cwricwlwm y mae'n ei ddilyn;

- penderfynu ar fformat adroddiadau i'r rhieni, ac adroddiadau i ysgolion y bydd disgyblion yn symud iddynt;
- trefnu i adroddiad gael ei gyfieithu, neu ei gyfleu yn llafar, i ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg, lle bo hynny'n ymddangos yn angenrheidiol;
- penderfynu pryd i gyflwyno adroddiadau i'r rhieni, cyhyd ag y bo lleiafswm yr wybodaeth sy'n ofynnol yn cael ei hanfon at y rhieni erbyn diwedd tymor yr haf;
- peidio â chynnwys yn yr adroddiad i'r rhieni wybodaeth a allai fod yn gyfrinachol, fod yn niweidiol i'r plentyn neu i'r rhieni, neu gynnwys datgelu gwybodaeth am ddisgybl arall (fel y nodir yn y paragraff dilynol).

Mae gan benaethiaid bwerau penodol i benderfynu peidio â chynnwys rhai mathau o wybodaeth gyfrinachol mewn adroddiadau i'r rhieni. Mae hyn yn ymwneud â gwybodaeth:

- a roddwyd gan unrhyw un heblaw:
 - person a gyflogir gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol
 - athro neu athrawes neu weithiwr cyflogedig arall yn yr ysgol (yn cynnwys seicolegydd addysg a gyflogir dan gytundeb am wasanaethau)
 - swyddog lles addysg
 - y sawl sy'n gofyn am gael yr wybodaeth
- sy'n enwi person (heblaw'r disgybl y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef/hi, neu un o'r rhai a restrir uchod) fel ffynhonnell yr wybodaeth neu fel y person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef/hi;
- sydd, ym marn y pennaeth, yn debygol o beri niwed difrifol i'r disgybl dan sylw neu i unrhyw berson arall;
- sy'n berthnasol i achos o gam-drin plentyn neu risg o hynny;
- a fyddai'n datgelu gwybodaeth am ddisgybl heblaw'r disgybl sydd o dan sylw yn yr adroddiad.

21. Adroddiadau i rieni yn ystod Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol (BCC) R, 1, 2, 3, 4, 5 a 6

Ar gyfer pob disgybl yn BCC D, 1, 2, 3, 4, 5 a 6, dylai'r adroddiad gynnwys, o leiaf, yr wybodaeth ganlynol:

- manylion cryno am gynnydd disgybl wrth astudio pynciau, meysydd dysgu a gweithgareddau fel rhan o gwricwlwm yr ysgol, gan gynnwys holl bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol.

- Crynodeb byr o gynnydd disgybl yn erbyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol;
- manylion cynnydd cyffredinol y disgybl;
- crynodeb o gofnod presenoldeb y disgybl;
- manylion y trefniadau i rieni drafod yr adroddiad gydag athrawon yn yr ysgol;
- datganiad sy'n cynnwys y rheswm am ddatgymhwyso, mewn achosion pan fo disgybl wedi'i ddatgymhwyso rhag unrhyw bwnc neu dargedau cyrhaeddiad o dan Adrannau 113-116 o'r Ddeddf Addysg.(I BCC 3, 4, 5 a 6 yn unig y mae'r gofyniad hwn yn berthnasol).

Ar gyfer disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig, mae'n ofynnol i benaethiaid baratoi adroddiadau ar gyfer adolygiad blynyddol o ddatganiad y disgybl. Mae'r gofyniad statudol hwn wedi'i gynnwys ym Mhennod 9 o God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Os dymuna'r ysgolion, gellir defnyddio'r adroddiadau hyn fel adroddiad blynyddol i'r rhieni ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd gan y disgyblion. Os felly, rhaid i'r penaethiaid sicrhau bod yr adroddiadau a gynhyrchir fel rhan o'r adolygiad blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth a nodir yn y rheoliadau ar wybodaeth am ddisgyblion yn yr adran hon.

22. Gofynion adrodd ychwanegol ar ddiwedd BCC 2 a BCC 6

Rhaid i adroddiadau am ddisgyblion a asesir yn ôl y trefniadau statudol ar ddiwedd BCC 2 a BCC 6 gael eu hanfon allan cyn diwedd tymor yr haf.

Yn ogystal â'r wybodaeth a restrir uchod, rhaid i adroddiadau ar gyfer disgyblion ar ddiwedd BCC 2 a BCC 6 gynnwys:

- lefel cyrhaeddiad y disgybl fel y'i pennwyd gan Asesiadau Athrawon ym mhob pwnc MD neu craidd perthnasol;
- sylwadau cryno yn nodi'r hyn y mae'r asesiad yn ei ddangos am gynnydd y disgybl ym mhob MD/pwnc, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau penodol.

23. Adroddiadau i rieni yn ystod BCC 7, 8 a 9

Dylai'r adroddiad gynnwys o leiaf yr wybodaeth ganlynol ar gyfer pob disgybl yn BCC 7, 8 a 9:

- manylion cryno am gynnydd disgybl wrth astudio pynciau a gweithgareddau fel rhan o gwricwlwm yr ysgol, gan gynnwys holl bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol.
- crynodeb byr o gynnydd disgybl yn erbyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol;

- manylion cynnydd cyffredinol y disgybl;
- crynodeb o gofnod presenoldeb y disgybl;
- manylion y trefniadau i rieni drafod yr adroddiad gydag athrawon yn yr ysgol;
- datganiad sy'n cynnwys y rheswm am ddatgymhwyso, mewn achosion pan fo disgybl wedi'i ddatgymhwyso rhag unrhyw bwnc neu dargedau cyrhaeddiad o dan Adrannau 113 – 116 o'r Ddeddf Addysg.

Ar gyfer disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig, mae'n ofynnol i benaethiaid baratoi adroddiadau ar gyfer adolygiad blynyddol o ddatganiad y disgybl. Mae'r gofyniad statudol hwn wedi'i gynnwys ym Mhennod 9 o God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Os dymuna'r ysgolion, gellir defnyddio'r adroddiadau hyn fel adroddiad blynyddol i'r rhieni ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd gan y disgyblion. Os felly, rhaid i'r penaethiaid sicrhau bod yr adroddiadau a gynhrychir fel rhan o'r adolygiad blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth a nodir yn yr adran hon.

24. Gofynion adrodd ychwanegol ar ddiwedd BCC 9

Rhaid i adroddiadau am ddisgyblion a asesir yn ôl y trefniadau statudol ar ddiwedd BCC 9 gael eu hanfon allan cyn diwedd tymor yr haf.

Yn ogystal â'r wybodaeth a restrir yn flaenorol rhaid i adroddiadau ar gyfer disgyblion ar ddiwedd BCC 9 gynnwys yr wybodaeth a nodir isod:

- lefel cyrhaeddiad y disgybl fel y'i pennwyd gan asesiad athro ym mhob un o'r pynciau craidd a phynciau di-graidd;
- manylion pa iaith y dylid ei hystyried at ddibenion asesu statudol ar gyfer pob disgybl sy'n astudio mwy nag un iaith dramor. Fodd bynnag, rhaid adrodd i'r rhieni am gynnydd y disgybl ym mhob un o'r ieithoedd a astudir;
- sylwadau cryno yn nodi'r hyn y mae'r canlyniadau yn ei ddangos am gynnydd y disgybl ym mhob pwnc, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau penodol.

25. Gwybodaeth gymharol yr ysgol a gwybodaeth gymharol genedlaethol

Roedd y rheoliadau yn arfer ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau cymharol safonol priodol diwedd y CA3 gael eu cyhoeddi ym mhrosbectws yr ysgol, eu darparu i'r llywodraethwyr i'w cynnwys yn adroddiadau blynyddol y llywodraethwyr a'u darparu gyda phob adroddiad blynyddol ar gyfer rhieni neu ddisgyblion sy'n oedolion. Gwnaed i ffwrdd â'r gofyniad hwn gan Reoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018 a ddaeth i rym ar 31 Gorffennaf 2018. Canlyniad llawn y rheoliadau hyn yw na fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data asesiadau athrawon mwyach ar lefel yr ysgol nac ar lefel yr awdurdod lleol ac ni fydd felly yn llunio Adroddiadau Cymharol Ysgolion i ysgolion eu cyhoeddi. Mae'r newidiadau hyn yn rhan o'r gwaith sy'n parhau i gynorthwyo diwygio'r trefniadau gwerthuso a gwella (atebolrwydd) o fewn y system addysg,

sy'n amcan allweddol yn [Cenhadaeth Ein Cenedl](#). Mae Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg am y rheoliadau diwygio hyn i'w weld yma: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rheoliadau-addysg-diwygiadaun-ymwneud-gwybodaeth-asesiadau-athrawon-cymru>

26. Y System Drosglwyddo Gyffredin

Yn ôl y Rheoliadau sy'n ymdrin â'r System Drosglwyddo Gyffredin, sef Rheoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011, mae gofyn i bennaeth ysgol a gynhelir y mae disgybl yn trosglwyddo ohoni, anfon i ysgol newydd y disgybl set safonol o wybodaeth am y disgybl, ar fformat electronig, i'w rhoi yn uniongyrchol i mewn i System Gwybodaeth Reoli'r ysgol newydd.

Adroddiadau i'r ysgolion sy'n derbyn disgyblion

Pan fydd disgybl yn symud o ysgol a gynhelir i ysgol newydd, gan gynnwys ysgol annibynnol, dylid cyflwyno adroddiad am gyraeddiadau'r disgybl, os yw hynny'n rhesymol ymarferol, i bennaeth yr ysgol dderbyn. Mae'n ofynnol gwneud hyn o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl tynnu enw'r disgybl oddi ar gofrestr ei hen ysgol, neu o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn cais am yr adroddiad gan yr ysgol newydd.

Rhaid i'r adroddiad gynnwys:

- canlyniadau AA statudol y disgybl yn y meysydd dysgu gorfodol neu yn y pynciau craidd fesul pwnc a tharged cyrhaeddiad (os cynhyrchir gwybodaeth o'r fath) ym mhob un o'r Cyfnodau Allweddol blaenorol (os yw'r wybodaeth honno ar gael), a'r flwyddyn ysgol pan wnaed yr asesiadau;
- asesiadau diweddaraf yr athrawon o gynnydd y disgybl yn erbyn y targedau cyrhaeddiad ym mhob un o'r MD gorfodol neu ym mhob un o'r pynciau craidd perthnasol ers yr asesiad statudol diwethaf neu ers i'r disgybl gyrraedd yr ysgol sy'n cyflwyno'r adroddiad, pa un bynnag yw'r diweddaraf;
- os yw'r disgybl ar ddiwedd CA3, lefelau asesiad statudol gan athrawon mewn Cymraeg ail iaith, iaith dramor fodern, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth ac addysg gorfforol, fesul pwnc, a lle bo modd, fesul targed cyrhaeddiad.

Gall hyn ddangos pa ddeilliannau/lefelau ar raddfa'r CS neu'r cwricwlwm cenedlaethol y mae'r disgybl yn gweithio arnynt neu ddangos cynnydd y disgybl yn fwy cyffredinol o fewn pob targed cyrhaeddiad. Lle bo hynny'n briodol, dylai nodi a yw cyraeddiadau'r disgybl wedi datblygu'n sylweddol ers yr asesiad statudol diwethaf.

Nid oes dyletswydd i ddarparu adroddiad o'r fath i ysgol newydd y disgybl o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os yw'r disgybl wedi ei gofrestru yn yr ysgol ers llai na phedair wythnos. Er hynny, mewn achos o'r fath, dylai'r pennaeth wneud pob ymdrech i roi i'r ysgol newydd unrhyw adroddiadau a drosglwyddwyd o ysgol neu ysgolion blaenorol y disgybl;

- os nad yw'n rhesymol ymarferol i'r pennaeth ddod o hyd i fanylion ysgol newydd y disgybl. Fodd bynnag, dylai'r pennaeth o leiaf ffonio rhieni'r disgybl ac, os yw eu cyfeiriad yn hysbys, ysgrifennu atynt i holi ymhle y bydd y disgybl yn parhau â'i addysg.

Atodiad A: Adroddiad yr Aseiad Sylfaenol

Cyfanswm nifer y disgyblion yn ffeil yr Aseiad Sylfaenol (AS)

(dylai hyn gyfateb i nifer y disgyblion ar y gofrestr fydd yn cael eu pen-blwydd yn 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd hon)

Crynodeb cyffredinol o'r ffeil AS:

| Maes Dysgu | Cyfanswm y disgyblion yn ôl BCC | | Cyfanswm |
|--|---------------------------------|-------|----------|
| | BCC Derbyn | BCC 1 | |
| PSD: Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol | | | |
| LCW: Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg) | | | |
| LCE: Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Saesneg) | | | |
| MDT: Datblygiad Mathemategol | | | |
| PDT: Datblygiad Corfforol | | | |
| Is-gyfanswm LCE + LCW* | | | |
| Cyfanswm yr holl Feysydd Dysgu | | | |

* Noder: dylai disgybl gael naill ai LCE neu LCW yn y ffeil - nid y ddau.

Crynodeb o'r Maes Dysgu yn ôl cod y deiliant:

| Cod y deiliant ar gyfer yr aseiad sylfaenol | PSD | LCW | LCE | MDT | PDT | Cyfanswm |
|---|-----|-----|-----|-----|-----|----------|
| A | | | | | | |
| 6 | | | | | | |
| 5 | | | | | | |
| 4 | | | | | | |
| 3 | | | | | | |
| 2 | | | | | | |
| 1 | | | | | | |
| G | | | | | | |
| S | | | | | | |
| Z | | | | | | |
| W | | | | | | |
| D | | | | | | |
| N | | | | | | |
| Cyfanswm | | | | | | |

Atodiad B: Adroddiad Dilysu Ysgolion

Canlyniadau Aseidiadau Athrawon Cyfnod Allweddol 3 (engraifft isod yn dangos adroddiad 2019 ar gyfer CA2. Dylai ddweud 2022 a CA3 ar gyfer y flwyddyn yma)

Enw Ysgol
Enw ALI


Rhif yr ALI/Ysgol: XXX/XXXX

Adroddiad dilysu ar gyfer yr ysgol: Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2019 Cyfnod Allweddol 2


Caiff y data crynodedol hyn eu cynhyrchu ar sail y ffeiliau Casglu Data Cenedlaethol mae eich ysgol newydd eu cyflwyno. Eu diben yw helpu eich ysgol i ddilysu data ar lefel disgyblion yn y ffeiliau hyn. Byddwch yn gallu cynhyrchu'r adroddiad hwn drwy gydol y cyfnod dilysu ar gyfer Casglu Data Cenedlaethol ac am gyfnod byr wedyn.

Canran o gwrywod, benywod, a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):

| | Gwrywod | | Benywod | | Disgyblion | |
|--------------|------------|------------|------------|------------|------------|------------|
| | Ysgol 2019 | Ysgol 2018 | Ysgol 2019 | Ysgol 2018 | Ysgol 2019 | Ysgol 2018 |
| Saesneg | 70 | 69 | 90 | 89 | 87 | 79 |
| Cymraeg | 55 | 63 | 75 | 83 | 87 | 73 |
| Mathemateg | 80 | 70 | 100 | 90 | 87 | 80 |
| Gwyddoniaeth | 90 | 75 | 100 | 95 | 96 | 85 |
| DPC | 60 | 64 | 80 | 84 | 83 | 74 |



Perfformiad yr ysgol dros amser (2015 - 2019)



- Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig.
- DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf.
- Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwloch ar gyfer y flwyddyn honno.

Atodiad C: Cyfrifo lefelau pwnc asesiad athrawon – Cyfnod Allweddol 3

Wrth gyfrifo'r lefel pwnc:

- Caiff targedau cyrhaeddiad **Saesneg** (llafaredd, darllen ac ysgrifennu) eu pwysoli'n gyfartal
- Caiff targedau cyrhaeddiad **Cymraeg** eu pwysoli fel a ganlyn:
 - ❖ Llafaredd (Cy1) 4
 - ❖ Darllen (Cy2) 3
 - ❖ Ysgrifennu (Cy3) 3
- Caiff targedau cyrhaeddiad **Cymraeg Ail Iaith** eu pwysoli fel a ganlyn:
 - ❖ Llafaredd (CA1) 3
 - ❖ Darllen (CA2) 1
 - ❖ Ysgrifennu (CA3) 1
- Caiff targedau cyrhaeddiad **Ieithoedd Tramor Modern** eu pwysoli fel a ganlyn:
 - ❖ Llafaredd (ML1) 2
 - ❖ Darllen (ML2) 1
 - ❖ Ysgrifennu (ML3) 1

Noder: er mwyn gwahaniaethu rhwng lefelau Deilliannau 1, 2 a 3 newydd y Cwricwlwm Cenedlaethol, pennwyd gwerthoedd rhifiadol ar eu cyfer:

| Graddfa'r Cwricwlwm Cenedlaethol | Cod Gweinyddol | Gwerth Rhifiadol |
|--------------------------------------|----------------|------------------|
| Deilliant 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol | A | 0.75 |
| Deilliant 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol | B | 0.50 |
| Deilliant 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol | C | 0.25 |

Wrth gyfrifo lefelau pwnc o lai nag 1, dylid talgrynnu'r rhif i'r 0.25 agosaf. Dylai Systemau Gwybodaeth Reoli ysgolion wneud y gwaith cyfrifo ar ôl i ddata'r targed cyrhaeddiad gael eu cofnodi.

Wrth gyfrifo lefelau pwnc o fwy nag 1, dylid talgrynnu haneri i fyny i'r rhif cyfan nesaf. Dylai Systemau Gwybodaeth Reoli ysgolion wneud y gwaith cyfrifo ar ôl i ddata'r targed cyrhaeddiad gael eu cofnodi.

Os na ellir asesu disgybl yn un o'r targedau cyrhaeddiad a'i fod yn cael dyfarniad D neu N, bydd canlyniadau'r disgybl ar gyfer y targed cyrhaeddiad hwnnw yn cael eu dileu ond bydd hefyd yn cael marc am gyfanswm y cydrannau eraill.

Enghraifft ar gyfer Cymraeg

I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) ($47 \div 10 = 4.7$). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r dysgwr hwn wedi cyrraedd Lefel 5.

| Targed Cyrhaeddiad | Lefel (a) | Pwysoliad (b) | Lefel x Pwysoliad (c) |
|--------------------|-----------|---------------|-----------------------|
| Llafaredd (Cy1) | 5 | 4 | 20 |
| Darllen (Cy2) | 5 | 3 | 15 |
| Ysgrifennu (Cy3) | 4 | 3 | 12 |
| Cyfanswm | | 10 | 47 |

Enghraifft ar gyfer Cymraeg Ail Iaith

I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) ($34 \div 5 = 6.8$). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 7.

| Targed Cyrhaeddiad | Lefel (a) | Pwysoliad (b) | Lefel x Pwysoliad (c) |
|--------------------|-----------|---------------|-----------------------|
| Llafaredd (Ca1) | 7 | 3 | 21 |
| Darllen (Ca2) | 7 | 1 | 7 |
| Ysgrifennu (Ca3) | 6 | 1 | 6 |
| Cyfanswm | | 5 | 34 |

Enghraifft ar gyfer Iaith Dramor Fodern

I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) ($25 \div 4 = 6.25$). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 6.

| Targed Cyrhaeddiad | Lefel (a) | Pwysoliad (b) | Lefel x Pwysoliad (c) |
|--------------------|-----------|---------------|-----------------------|
| Llafaredd (ML1) | 6 | 2 | 12 |
| Darllen (ML2) | 6 | 1 | 6 |
| Ysgrifennu (ML3) | 7 | 1 | 7 |
| Cyfanswm | | 4 | 25 |

Atodiad D: Proffil y Cyfnod Sylfaen – Sgorio ar gyfer ‘Datgymhwyswyd’ a ‘Heb ei ddyfarnu’

Mae'r Atodiad hwn yn darparu arweiniad ynghylch sut i gyfrifo deilliau Meysydd Dysgu (MD) ym Mhroffil y Cyfnod Sylfaen, pan geir deilliannau fframiau sgiliau yn cynnwys cod 'D' ar gyfer 'Datgymhwyswyd' a/neu 'N', ar gyfer 'heb ei ddyfarnu' yn asesiadau'r athrawon.

Mae cyngor cynhwysfawr ynghylch sgorio ar gyfer 'Datgymhwyswyd' a 'Heb ei ddyfarnu' ar gael ar dudalen Proffil y Cyfnod Sylfaen gwefan Llywodraeth Cymru:

<https://beta.llyw.cymru/proffil-y-cyfnod-sylfaen-canllawiau-i-ymarferwyr>

Defnyddio codau D a N

Cod D: Wedi'i ddatgymhwysu o dan adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002
Dim ond mewn amgylchiadau prin iawn y bydd angen datgymhwysu plentyn o ffrâm sgiliau. Cewch ragor o wybodaeth am y broses ddatgymhwysu yn y *Trefniadau asesu statudol ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 3*:

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/statutory-assessment-arrangements-for-end-of-foundation-phase-key-stage-2-and-3/?lang=cy>

Cod N: Heb ei ddyfarnu am resymau heblaw datgymhwysu

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio cod N, megis pan nad oes gan yr athro ddigon o wybodaeth a thystiolaeth i baratoi asesiad athro. Yn gyffredinol, hyd yn oed yn achos disgybl sydd â hanes o bresenoldeb gwael, byddem yn disgwyl i asesiad gael ei wneud ar sail tystiolaeth a gwybodaeth a gasglwyd pan oedd y disgybl yn bresennol.

DS: Mae rheolau cyfrifo deilliannau'r Meysydd Dysgu yn wahanol ar gyfer y Proffil Cryno a'r Proffil Llawn. Os ydych chi'n cynnal asesiad sylfaenol statudol bydd angen i chi gadw at reolau'r Proffil Cryno.

Y Proffil Cryno

Mae'r Proffil Cryno'n cynnwys pedwar ffrâm sgiliau ar gyfer pob un o'r pedwar MD. Mae'r dull o addasu'r sgorio ar gyfer unrhyw fframiau a sgoriwyd fel N neu D felly yr un fath ar gyfer pob un ohonynt.

Enghraifft 1: Dim ond 1 ffrâm sgiliau sy'n N neu'n D

Mae'n bosibl cael deilliant heblaw N neu D ar gyfer pob MD os mai dim ond un o'r fframiau sgiliau sydd wedi ei farcio'n N neu'n D. Mewn achos felly, bydd y sgôr yn cael ei gyfrifo drwy godi'n gymesur sgoriau'r tri ffrâm sgiliau sydd â sgoriau, fel a ganlyn:

Sgôr MD = $(4 / 3) \times$ cyfanswm sgoriau y 3 ffrâm sgiliau nad ydynt yn 'N' neu'n 'D'.

Os yw sgôr MD rhwng terfynau 2 ddeilliant, dylid ei dalgrynnu i lawr i'r deilliant is.

Enghraifft 2: 2 neu fwy o fframiau sgiliau'n N a dim un yn D

Yn yr enghraifft hwn, N yw sgôr a deilliant y MD.

Enghraifft 3: 2 neu fwy o fframiau sgiliau'n D

Enghraifft 4: mae o leiaf un ffrâm sgiliau yn N ac o leiaf un yn D

Yn unol â threfniadau asesu eraill ar draws y cwricwlwm, y ffactor pwysicaf yw a oes un neu fwy o'r fframiau sgiliau wedi'u datgymhwyso. Felly, os yw 2 neu fwy o fframiau sgiliau wedi'u sgorio'n N neu'n D, ac mae o leiaf un o'r rhain yn D, yna D fydd y Sgôr a'r Deilliant cyffredinol.

Felly ar gyfer y ddwy enghraifft hyn, D yw Sgôr a Deilliant y MD.

Y Proffil Llawn

Gan fod nifer y fframiau sgiliau ym mhob MD yn amrywio yn y Proffil Llawn, mae'r dulliau ar gyfer cyfrifo sgoriau'n amrywio ychydig, er y bydd yr egwyddorion sylfaenol yr un fath ag yn y Proffil Cryno, ac yr un fath ar gyfer pob MD.

Fel egwyddor gyffredinol, os yw sgôr y MD rhwng terfynau 2 ddeilliant, dylid ei dalgrynnu i lawr i'r deilliant is.

Ar gyfer pob enghraifft lle nad yw'n bosibl cyfrifo sgôr oherwydd bod gormod o sgoriau D neu N, bydd deilliant D neu N yn cael ei gofnodi. Dim ond os nad yw unrhyw ffrâm sgiliau wedi'i farcio'n D y bydd N yn cael ei gofnodi fel sgôr.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Datblygiad Corfforol

Bydd y dull o gyfrifo'r un fath ar gyfer y rhain gan fod 6 ffrâm sgiliau gan y ddau.

Mae'n bosibl cael deilliant heblaw N neu D ar gyfer pob MD os mai dim ond **1** neu **2** o'r fframiau sgiliau sydd wedi eu marcio'n N neu'n D.

Mewn achos felly, bydd y sgôr yn cael ei gyfrifo drwy godi'n gymesur sgoriau'r 4 neu 5 ffrâm sgiliau sydd â sgoriau, fel a ganlyn:

Sgôr MD = cyfanswm y sgoriau \times (6 / nifer y fframiau sgiliau lle nad yw'r sgôr yn N neu'n D – h.y. 4 neu 5)

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (LCW/LCE) (14 o fframiau sgiliau) a Datblygiad Mathemategol (MDT) (17 o fframiau sgiliau)

Gan fod mwy o fframiau sgiliau yn LCE/LCW a MDT, ma'n dal i fod yn bosibl cyfrifo deilliant cyn belled **nad oes mwy na 3** o fframiau sgiliau wedi'u marcio'n N neu'n D.

Bydd y sgôr yn cael ei gyfrifo drwy godi sgoriau'r fframiau sgiliau sydd ar gael yn gymesur, fel a ganlyn:

LCE/ LCW – **Sgôr MD** = cyfanswm y sgoriau \times (14 / nifer y fframiau sgiliau lle nad yw'r sgôr yn N neu'n D – h.y. 11,12 neu 13)

MDT – **Sgôr MD** = cyfanswm y sgoriau \times (17 // nifer y fframiau sgiliau lle nad yw'r sgôr yn N neu'n D – h.y. 14, 15 neu 16)